

## CYNGOR SIR CEREDIGION

**Adroddiad i'r:** Cabinet

**Dyddiad y Cyfarfod:** 14 Chwefror 2023

**Teitl:** Rhaglen Arfor: Derbyn y cyllid a'r trefniadau gweithredu yng Ngheredigion

**Pwrpas yr Adroddiad:** Cael awdurdod dirprwyedig i dderbyn cyllid Arfor 2 oddi wrth Lywodraeth Cymru ar gyfer Ceredigion. Rhoi'r diweddaraf ynghylch gweithredu a chyflawni'r rhaglen yng Ngheredigion.

**Er:** Penderfyniad

**Portffolio Cabinet ac Aelod Cabinet:** Y Cyngorydd Clive Davies, Aelod Cabinet dros yr Economi ac Adfywio

### 1. Cefndir

- Yn dilyn llwyddiant rhaglen Arfor 2018-2020 a oedd yn gweithredu yng Ngheredigion, Gwynedd, Sir Gaerfyrddin ac Ynys Môn, mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno i gyflwyno rhaglen newydd Arfor 2 gyda'r nod o gryfhau gwydnwch economaidd cadarnleoedd y Gymraeg.
- Bydd £11m ar gael ar gyfer cymunedau yn y pedair sir hyn sydd â'r lefelau uchaf o siaradwyr Cymraeg.
- Bydd y cyllid yn cefnogi nifer o ymyriadau strategol, gan gynnwys canolbwytio ar gyfleoedd i bobl ifanc a theuluoedd, er mwyn eu galluogi i aros yn eu cymunedau lleol neu ddychwelyd iddynt.
- Bydd y rhaglen yn chwarae rhan allweddol yn strategaeth Llywodraeth Cymru (Cymraeg 2050) sy'n anelu at sicrhau bod miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.
- Mae Arfor 2 yn rhaglen newydd a fydd yn cael ei darparu gan bartneriaid yn yr awdurdodau lleol a fydd yn helpu i gryfhau gwydnwch economaidd cadarnleoedd y Gymraeg.
- Fel rhan o'r Cytundeb Cydweithio gyda Phlaid Cymru a chan adeiladu ar y profiad o raglen gynharach Arfor a lanswyd yn 2019, a'r gwerthusiad o honno, bydd cyllid Llywodraeth Cymru ar gael i bedwar Awdurdod Lleol sef Ceredigion, Gwynedd, Sir Gaerfyrddin ac Ynys Môn.
- Prif amcan Arfor 2 yw cefnogi'r cymunedau sy'n gadarnleoedd i'r Gymraeg i ffynnu drwy ymyriadau economaidd a fydd hefyd yn cyfrannu at gynyddu cyfleoedd i weld a defnyddio'r Gymraeg yn ddyddiol.
- Cyngor Sir Gwynedd fydd yn gweithredu fel Awdurdod Arweiniol ac mae llythyr gan Lywodraeth Cymru i gynnig Cytundeb wedi dod i law ac mae Cytundeb Rhyng-Awdurdod wrthi'n cael ei ddrafftio.
- Yn Ebrill 2022, roedd Bwrdd Arfor - sy'n cynnwys Arweinyddion y pedair Sir - wedi cyflwyno 'Cynnig Amlinellol' i Lywodraeth Cymru ar gyfer ail gymal y Rhaglen yn gosod allan amcanion strategol ac egwyddorion Arfor 2. Wedyn cafodd hyn ei gymeradwyo mewn egwyddor. Dros y misoedd diwethaf mae swyddogion ledled y rhanbarth wedi bod yn llunio cynigion manylach a gafodd

eu cymeradwyo gan Lywodraeth Cymru cyn i Lywodraeth Cymru gyhoeddi'r rhaglen yn eang i'r cyhoedd ar 6 Hydref 2022. Cadarnhawyd drwy lythyr ariannu oddi wrth Lywodraeth Cymru, dyddiedig 2.12.2022.

**Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, nid yw'r llythyr cynnig gan Lywodraeth Cymru wedi cael ei lofnodi oherwydd y trafodaethau sy'n mynd rhagddynt ar sut i reoli gwariant y flwyddyn ariannol bresennol. Mae'r trafodaethau yn parhau ac mae cytundeb ar ddod.**

### **AMCANION STRATEGOL ALLWEDDOL ARFOR**

- Creu cyfleoedd i bobl ifanc a theuluoedd (o dan 35 oed) aros yn eu cymunedau cynhenid neu ddychwelyd iddynt – gan eu cefnogi i lwyddo'n lleol drwy gymryd rhan mewn menter neu ddatblygu gyrfa.
- Creu cymunedau mentrus mewn ardaloedd Cymraeg – drwy gefnogi mentrau masnachol a chymunedol sy'n ceisio cadw a chynyddu cyfoeth lleol drwy fanteisio ar hunaniaeth a rhinweddau unigryw eu hardaloedd.
- Manteisio i'r eithaf ar weithgarwch drwy gydweithio – er mwyn sicrhau bod arferion da a'r gwersi a ddysgwyd yn cael eu rhannu a bod gwaith monitro yn mynd rhagddo i sicrhau gwelliant parhaus.
- Cryfhau hunaniaeth cymunedau sydd â dwysedd uchel o siaradwyr Cymraeg – drwy gefnogi'r defnydd o'r Gymraeg a'i hamlygrwydd, gan annog ymdeimlad o le a theyrngarwch lleol.

### **2. Pecynnau Gwaith Arfor 2**

Bydd Arfor 2 yn cynnwys y pecynnau gwaith canlynol a fydd yn diwallu amcanion strategol y rhaglen:

<b>Pecyn Gwaith</b>	<b>Cyllideb</b>	<b>Dull cyflawni</b>
<p><b>Llwyddo'n Lleol</b> Rhaglen sydd wedi'i thargeddu ar gyfer pobl ifanc yw Llwyddo'n Lleol i gefnogi sgiliau entrepreneuriaeth. Bydd y cynllun yn cefnogi pobl ifanc i ddechrau eu busnes eu hunain yn eu cymunedau cynhenid drwy gyfuniad o gefnogaeth a chymorth ariannol gyda'r bwriad o gefnogi teuluoedd ifanc i aros neu ddychwelyd i'r ardal. Bydd y cynllun yn cael ei weithredu ar draws y pedair sir drwy gontractwr trydydd parti a reolir gan Gyngor Sir Gwynedd.</p>	£3,000,000 Prosiect Rhanbarthol	Cyflawnir drwy gaffael, drwy'r arweinydd rhanbarthol (Cyngor Sir Gwynedd)
<p><b>Cymunedau Mentrus</b> Bydd y grant trydydd parti yn cynnwys y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• cronfa dechrau busnes</li> <li>• cronfa twf busnes</li> <li>• cronfa menter gymdeithasol</li> </ul> <p>Bydd y gronfa yn adeiladu ar y gwaith a wnaed o dan Arfor 1 ac yn canolbwyntio ar sectorau sy'n cynnig cyfleoedd twf.</p>	£4,500,000 (£1,125,000 i bob Sir)	Gweithredu ym mhob sir unigol drwy grant trydydd parti

<p>Bydd y gronfa yn cael ei darparu'n lleol ond bydd y gweithgarwch sy'n gymwys yn cael ei gytuno yn rhanbarthol i sicrhau dull cyson o weithio. Bydd yr arian a sicheir yn galluogi'r Awdurdod i gyflogi swyddog penodol i reoli a gweithredu'r gronfa yn lleol.</p>		
<p><b>Cronfa Her Arfor</b> Bydd y Gronfa Her yn cynnwys dwy elfen:</p> <p><i>Cronfa Her Fach</i> - cynnig cymorth a chyllid o hyd at £30,000 i fudiadau lleol i ddatblygu a threialu gweithgareddau a fydd yn cyflawni amcanion strategol y Rhaglen. Bydd y gwaith o gyflawni'r gronfa her fach yn cael ei gomisiynu drwy Gyngor Sir Gwynedd. Bydd y contractwr a benodir yn gweithio gyda phob un o'r pedair ardal i hyrwyddo'r cyfleoedd sydd ar gael drwy'r gronfa her ac yn gyfrifol am wahodd a derbyn ceisiadau am gyllid.</p> <p><i>Cronfa Her Fawr</i> - cronfa hyblyg a fydd yn cynnig hyd at £100,000 i fudiadau yn unigol neu ar y cyd i ddatblygu a gweithredu cynlluniau a fydd yn ymateb i amcanion strategol Rhaglen Arfor. Bydd yr elfen hon yn cael ei rheoli yn uniongyrchol gan Gyngor Sir Gwynedd mewn cyswllt â'r tri Awdurdod Lleol arall. Bydd y cyfle i gynnig am arian yn cael ei hyrwyddo i groestoriad o sefydliadau ar draws y pedair Sir.</p> <p>Bydd pob cais a gyflwynir i'r Cronfeydd Her yn cael eu hystyried gan weithgor o swyddogion fydd yn cynnwys y pedwar awdurdod, cyn cael eu cyflwyno i Fwrdd Arfor.</p>	<p>£2,600,000 Prosiect Rhanbarthol</p>	<p>Bydd y gweithgarwch ar gael yn lleol ond yn cael ei reoli'n rhanbarthol gan Gyngor Sir Gwynedd</p>
<p><b>Cryfhau Hunaniaeth Cymunedau Arfor</b> Bydd Arfor 2 yn adeiladu ar waith blaenorol i hyrwyddo arfer da ac i helpu busnesau a mudiadau cymunedol i wireddu'r manteision economaidd o ddefnyddio'r Gymraeg fel rhan o'u gwaith bob dydd. Gwneir hyn drwy ddatblygu ymhellach Bwrlwm Arfor (<a href="http://www.bwrlwmarfor.cymru">www.bwrlwmarfor.cymru</a>) sef platfform ar-lein ar gyfer rhannu arfer da.</p> <p>Hefyd bydd cynllun marchnata a chyfathrebu strategol yn elfen bwysig o'r rhaglen.</p>	<p><b>£300,000.00</b></p>	<p>Bydd yn cael ei reoli'n rhanbarthol gan Gyngor Sir Gwynedd mewn cyswllt â'r siroedd eraill</p>

<p><b>Monitro a Gwerthuso a Dysgu</b> Elfen allweddol o Arfor 2 fydd monitro a gwerthuso canlyniadau ac effaith y Rhaglen o'r cychwyn cyntaf. Bydd Cyngor Sir Gwynedd yn goruchwyllo'r gwaith o reoli'r contract ond bydd gan bob Awdurdod rôl werthfawr i'w chwarae wrth fwydo i'r broses hon. Bydd yr elfen hon o'r rhaglen hefyd yn ceisio ehangu ein dealltwriaeth o'r cysylltiadau rhwng yr economi a'r Gymraeg.</p>	<p><b>£200,000.00</b></p>	<p>Bydd yn cael ei reoli'n rhanbarthol gan Gyngor Sir Gwynedd mewn cyswllt â'r siroedd eraill.</p>
---	---------------------------	--

**Er gwybodaeth, dyma'r cyllid a ddyrennir:**

Gwariant	Cyllideb 2022-2025	Cyflawni'n Lleol 2022-2025	Cyllideb 2022-2025
<b>Rhanbarthol</b>		<b>Ceredigion</b>	
Llwyddo'n Lleol	£3,000,000.00	Gweinyddu	£142,145.91
Cronfa Her	£2,600,000.00	Cymunedau Mentrus	£1,040,625.00
Bwrlwm ARFOR	£300,000.00		
Monitro, Gwerthuso, Dysgu	£200,000.00	<b>Cyfanswm Ceredigion:</b>	<b>£1,182,770.91</b>
Costau Gweinyddu	£400,000.00		
Cymunedau Mentrus (Lleol)	£4,500,000.00		
<b>CYFANSWM y Rhanbarth:</b>	<b>£11,000,000.00</b>		

**3. Llywodraethu'r Rhaglen**

Bydd Cyngor Gwynedd yn parhau i weithredu fel awdurdod arweiniol ar gyfer y rhaglen ledled ardaloedd y pedwar awdurdod lleol. Mae cytundeb cyfreithiol wedi ei sefydlu eisoes rhwng y siroedd ar gyfer cam cyntaf Rhaglen Arfor. Mae hyn wrthi'n cael ei adolygu ar gyfer yr ail gam a bydd yn cael ei rannu ar yr adeg briodol gyda'r tîm cyfreithiol corfforaethol er mwyn cael eu mewnbwn nhw.

Er mwyn rhoi cyfeiriad strategol a goruchwyllo'r gwaith o gyflawni Arfor II, sefydlwyd Bwrdd sy'n cynnwys Arweinwyr y pedair Sir. Hyd yn hyn, mae'r Bwrdd wedi cyfarfod ddwy waith i ystyried a chymeradwyo'r gwaith a wnaed hyd yma wrth ddatblygu'r rhaglen.

Bydd y Bwrdd yn cael ei gefnogi gan Grŵp o Swyddogion a fydd yn cynnwys uwch swyddogion o'r pedair sir ynghyd â chynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

Rôl grŵp y swyddogion fydd sicrhau bod mewnbwn parhaus gan Geredigion ym mhob cam o'r gwaith i sicrhau bod anghenion ein busnesau a'n cymunedau lleol yn cael eu bodloni.

#### 4. Goblygiadau o ran Adnoddau

Bydd swydd newydd yn cael ei chreu - a ariennir drwy'r rhaglen - i oruchwylio ffrydiau gwaith rhaglen Arfor yng Ngheredigion. Bydd hyn yn cynnwys rheoli cronfa grant trydydd parti a sicrhau bod holl ofynion rheoleiddio ariannol y Cyngor Sir a'r cyrff cyllido allanol perthnasol yn cael eu bodloni. Bydd y swydd hon yn gorwedd o fewn strwythur presennol y Gwasanaeth Datblygu Economaidd a Chymunedol.

	<p><b>A gwblhawyd Asesiad Effaith Integredig? Os na, nodwch pam</b></p> <p><b>Crynodeb:</b></p> <p><b>Hirdymor:</b></p>	<p>Naddo, nid yw'n fater o newid polisi.</p> <p>Cronfa tair blynedd o hyd yw rhaglen Arfor, o 2021-22 hyd 2024-5. Mae'n rhoi cyfle i Wasanaethau ddatblygu blaenoriaethau'r strategaethau corfforaethol a'r cynlluniau tymor byr a thymor canolig er mwyn gweithio tuag at ein blaenoriaethau hirdymor.</p>
<p><b>Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:</b></p>	<p><b>Cydweithio:</b></p>	<p>Mae yna gefnogaeth a dyhead ar draws y pedwar awdurdod lleol i weithio mewn partneriaeth, i sefydlu fframwaith ac ymyriadau a chyd-gysylltu datblygiad economaidd a chynllunio ieithyddol o dan raglen Arfor (2019-2021).</p>
	<p><b>Cynnwys:</b></p>	<p>Mae cydweithio mewn partneriaeth yn elfen allweddol o raglen Arfor.</p>
	<p><b>Atal:</b></p>	<p>Bydd cynllun Arfor yn cyfrannu at gadw a chynnal y gweithlu yn ein cymunedau.</p>
	<p><b>Integreiddio:</b></p>	<p>Mae Arfor yn bartneriaeth sy'n rhan o'r pedwar awdurdod lleol gan gynnwys y Mentrau Iaith, Cymraeg Byd Busnes, Llywodraeth Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Mae'r rhaglen yn cynnig nifer o gyfleoedd i integreiddio a chyd-fynd â chynlluniau a strategaethau corfforaethol presennol.</p>

<b>Argymhelliad:</b>	<ol style="list-style-type: none"> <li>1. Cymeradwyo'r trefniadau a gynigir ar gyfer gweithredu a chyflawni'r Gronfa, fel y nodir yn yr adroddiad.</li> <li>2. Cymeradwyo mewn egwyddor fod y Cyngor yn ymrwymo i Gytundeb Rhyng-Awdurdod gyda Chyngor Sir Gwynedd.</li> </ol>
<b>Rhesymau dros y penderfyniad:</b>	Fel bod Cyngor Sir Ceredigion yn gallu mynd yn ei flaen gyda Chyngor Sir Gwynedd i dderbyn Cyllid Arfor a bod y swyddogion yn gallu sefydlu trefniadau gweithredu cyn gynted â phosib.
<b>Trosolwg a Chraffu:</b>	Nid yw hyn wedi cael ei gyflwyno gerbron Trosolwg a Chraffu gan fod y cynllun ond wedi cael ei lansio yn ddiweddar, ond byddai'n werth i'r cynllun gael ei ystyried mewn cyfarfod yn y dyfodol.
<b>Fframwaith Polisi:</b>	Ddim yn berthnasol – Polisi a Chyllid Llywodraeth Cymru
<b>Amcanion Llesiant Corfforaethol:</b>	Hybu'r Economi (yn bennaf) ond â gweithgarwch sy'n cefnogi'r pedair Blaenoriaeth Gorfforaethol.
<b>Goblygiadau Cyllid a Chaffael:</b>	Bydd y cynllun yn cydymffurfio â gweithdrefnau caffael y Cyngor fel y nodir yng nghanllawiau'r gronfa a'r llythyrau contract at dderbynwyr grantiau.
<b>Goblygiadau Cyfreithiol:</b>	<p>Bydd Cyngor Sir Gwynedd yn gweithredu fel corff arweiniol rhaglen Arfor 2, yn unol â'r rhaglen flaenorol. Sefydlwyd cytundeb cyfreithiol rhwng y siroedd ar gyfer cam cyntaf y Rhaglen. Mae hyn wrthi'n cael ei adolygu ar gyfer Arfor 2. Ymgynghorir â thîm cyfreithiol yr Awdurdod fel rhan o'r broses hon.</p> <p>Bydd yr Awdurdod yn gyfrifol am gyflawni a rheoli pecyn gwaith 'Cymunedau Mentrus' yn lleol. Bydd hyn yn cynnwys asesu a chymeradwyo ceisiadau lleol am brosiectau a dod i gytundebau cyllido gyda thrydydd partion. Bydd y rhain yn cael eu datblygu ar yr adeg briodol ar y cyd â thîm cyfreithiol yr Awdurdod.</p>
<b>Goblygiadau Staffio:</b>	Er mwyn sicrhau bod y Rhaglen yn cael ei darparu'n effeithiol yn lleol, bydd swyddog penodedig yn cael ei recriwtio a fydd wedi'i leoli o fewn Datblygu Economaidd. Sicrhawyd cyllid drwy raglen Arfor i ariannu'r swydd hon.
<b>Goblygiadau Eiddo/ Asedau:</b>	Dim yn uniongyrchol. Efallai fydd goblygiadau i rai prosiectau a gynigir ond bydd yn rhaid iddynt nodi'r rheiny fel rhan o'r gwaith datblygu/cymeradwyo yn fewnol drwy'r drefn lywodraethu a gytunir, os yw'n berthnasol. Cronfa referniw yw hon yn bennaf.

**Risg(iau):**

Ar hyn o bryd, dyma'r prif risgiau strategol:

- Oedi pellach cyn cymeradwyo a chael cytundebau gan Lywodraeth Cymru
- Risg i enw da'r Cynghorau – gan ddarparwyr allanol sydd eisiau cyflawni ond nad yw'r cyllid wedi ei dderbyn/ ei gadarnhau eto.
- Risgiau cyflawni – oherwydd oedi yn yr amserlenni.
- Colli arian/ail-broffilio – yn ddibynnol ar delerau ac amodau Llywodraeth Cymru. Os nad oes hyblygrwydd wrth leihau tanwariant blwyddyn 1, mae'n bosib y bydd peth cyllid yn cael ei golli.

Bydd proses rheoli risg ar lefel y rhaglen yn cael ei datblygu gan yr Awdurdod Arweiniol, Cyngor Sir Gwynedd, i sicrhau fod risgiau yn cael eu hasesu a'u rheoli ar bob lefel.

Bydd cofrestr risg benodol yn cael ei chynnal ar gyfer pecyn gwaith Cymunedau Mentrus gyda mesurau lliniaru priodol wedi'u nodi.

**Pwerau Statudol:** Dim

**Papurau Cefndirol:** Dim

**Atodiadau:** Dim

**Swyddog Arweiniol Corfforaethol:** Russell Hughes-Pickering, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Economi ac Adfywio

**Swyddog Adrodd:** Eirlys Lloyd, Rheolwr Partneriaethau Cymunedol

**Dyddiad:** 26.01.23